# Ffurflen gais
# Cofrestru landlord

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales

## Darllenwch y cyfarwyddiadau canlynol yn gyntaf

Cyn cwblhau'r ffurflen hon, darllenwch y canllawiau sydd ar gael yn adran 6. Mae seren (*) wrth ymyl cwestiwn yn nodi bod canllawiau ar gael. **Sicrhewch eich bod yn llenwi holl rannau perthnasol y ffurflen.**

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i gael eich cofrestru dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rhaid i chi gwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob trefniant landlord y mae angen i chi ei gofrestru. Felly, er enghraifft, os ydych yn rhentu neu'n berchen ar eiddo ar eich pen eich hun, ac yn rhentu neu'n berchen ar eiddo arall gyda rhywun arall, byddai angen i chi gwblhau dau gofrestriad ar ddwy ffurflen (gyda dwy ffi) i adlewyrchu'r gwahanol berthnasau landlord yr ydych yn rhan ohonynt.

| Adran 1 – Manylion personol | |
|---|---|
| **A ydych chi'n adnewyddu cofrestriad landlord cyfredol?** | Ydw ☐ Nac ydw ☐ Os ydych, rhowch eich rhif cofrestru (i'w gael ar eich dogfen gofrestru) **#RN-** |
| **A ydych chi'n gwneud cais*** | ☐ Landlord unigol ☐ Elusen ☐ Corff corfforaethol ☐ Landlordiaid ar y cyd ☐ Ymddiriedolaeth |
| **Adran 1.1 - Manylion personol** | |
| **Enw** | Teitl Enw cyntaf Enwau canol<br>Cyfenw |
| **Enwau eraill sydd wedi bod gennych** | |
| **Dyddiad geni** | (DD/MM/BBBB) |
| **Cyfeiriad gohebiaeth** | Cod post |
| **Rhif ffôn cyswllt** | |
| **E-bost** | |
| **A ydych chi'n landlord sy'n byw yn y DU*** | ☐ Yn byw yn y DU ☐ Yn byw y tu allan i'r DU |
| **Dewis iaith** | Gohebiaith: ☐ Cymraeg ☐ Saesneg ☐ Dwyieithog<br>Ar lafar: ☐ Cymraeg ☐ Saesneg |

Mae'r ffurflen gais hon ar gael yn Saesneg / This application form is available in English

## Adran 1.2 – Landlord ar y cyd

Cwblhewch yr adran hon os yw'r eiddo rhent yn destun cydberchnogaeth (h.y. enw mwy nag un person ar y gweithredoedd). Rhaid penodi un o'r cydberchnogion yn berchennog arweiniol er mwyn cofrestru ar ran y cydberchennog arall. Rhaid i'r perchennog arweiniol nodi ei fanylion ei hun a manylion pob landlord ar y cyd.

**Cydlandlord 1**

Teitl
Enw cyntaf
Enwau canol
Cyfenw
Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

A yw'r landlord hwn yn cynnal gweithgareddau gosod a/neu reoli yn yr eiddo yr ydych chi'n ei gofrestru? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, rhowch ei gyfeiriad e-bost a'i rhif ffôn:

Rhif ffôn
E-bost

**Cydlandlord 2**

Teitl
Enw cyntaf
Enwau canol
Cyfenw
Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

A yw'r landlord hwn yn cynnal gweithgareddau gosod a/neu reoli yn yr eiddo yr ydych chi'n ei gofrestru? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, rhowch ei gyfeiriad e-bost a'i rhif ffôn:

Rhif ffôn
E-bost

**Cydlandlord 3**

Teitl
Enw cyntaf
Enwau canol
Cyfenw
Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

A yw'r landlord hwn yn cynnal gweithgareddau gosod a/neu reoli yn yr eiddo yr ydych chi'n ei gofrestru? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, rhowch ei gyfeiriad e-bost a'i rhif ffôn:

Rhif ffôn
E-bost

## Adran 1.3 – Corff Corfforaethol, Ymddiriedolaeth, Elusen

Cwblhewch yr adran hon os yw landlord yr eiddo rhent yn gorff corfforaethol neu'n Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) cofrestredig, yn elusen gofrestredig neu'n rhan o ymddiriedolaeth.

| | |
|---|---|
| **Math y sefydliad** | Corff Corfforaethol/PAC ☐ Elusen ☐ Ymddiredolaeth ☐ |
| **Manylion y person sy'n cwblhau'r ffurflen hon** | Teitl ___ Enw cyntaf ___ Enwau canol ___<br>Cyfenw ___ Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) ___<br>Rôl (teitl swydd) ___ |
| **Enw'r sefydliad** | |
| **Rhif cofrestru*** | |
| **Cyfeiriad gohebiaeth** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **Cyfeiriad swyddfa gofrestredig** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **Rhif ffôn cyswllt** | |
| **E-bost** | |

Mae angen i gyfarwyddwr/ysgrifennydd a enwir gyda Thŷ'r Cwmnïau/y Comisiwn Elusennau fod wedi'i gysylltu â'r cofrestriad. Os nad ydych yn gyfarwyddwr/ysgrifennydd, rhowch ei fanylion isod. Nid yw hyn yn berthnasol i geisiadau i gofrestru ymddiriedolaethau.

| | |
|---|---|
| **Manylion Cyfarwyddwr neu Ysgrifennydd y cwmni/elusen os nad y person uchod** | Teitl ___ Enw cyntaf ___ Enwau canol ___<br>Cyfenw ___ Dyddiad geni (DD/MM/BBBB) ___<br>Rôl (teitl swydd) ___ |

## Adran 2 - Manylion yr asiant gosod a/neu reoli

Yn yr adran hon, rhaid i chi ddweud wrthym a ydych yn defnyddio asiant i gwblhau gweithgareddau gosod a/neu reoli yn unrhyw un o'ch eiddo rhent. Ceir diffiniadau o weithgareddau gosod a rheoli yn yr arweiniad yn adran 6.

**A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo yr ydych yn eu cofrestru?***

Ydy ☐ Os ydy, rhowch fanylion yr asiant isod. Byddwn hefyd yn gofyn i chi nodi pa asiant sy'n rheoli pa eiddo.

Nac ydy ☐ Os na, rhaid i'r landlord wneud cais am drwydded landlord. Mae hon yn broses gofrestru ar wahân.

### Asiant 1

Dim ond asiant wedi'i drwyddedu y dylech ei benodi i gynnal gwaith gosod a/neu reoli yn eich eiddo rhentu. Gwiriwch ein gofrestr gyhoeddus.

Enw'r unigolyn/cwmni

Cyfeiriad gohebiaeth

Cod post

Rhif ffôn

E-bost

Rhif trwydded Rhentu Doeth Cymru: **#LR-**

### Asiant 2

Enw'r unigolyn/cwmni

Cyfeiriad gohebiaeth

Cod post

Rhif ffôn

E-bost

*Rhif trwydded Rhentu Doeth Cymru: **#LR-**

### Asiant 3

Enw'r unigolyn/cwmni

Cyfeiriad gohebiaeth

Cod post

Rhif ffôn

E-bost

*Rhif trwydded Rhentu Doeth Cymru **#LR-**

## Adran 2.1 - Manylion eiddo rhent

Rhaid i chi ddatgan pob adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel annedd ar wahân. Os rhennir eiddo yn fflatiau neu'n fflatiau un ystafell, byddai pob fflat yn cael ei datgan a'i chofrestru'n unigol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif 1** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ | |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?*** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord | ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?*** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli | ☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif 2** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ | |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord | ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli | ☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif 3** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ | |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord | ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli | ☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | | |

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif 4** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli<br>☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | |

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif 5** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli<br>☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | |

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif 6** | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli<br>☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | |

**Nawr dylech chi roi mwy o wybodaeth am yr eiddo rhent yr ydych yn eu cofrestru yn yr adran nesaf. Sicrhewch fod eiddo yn cael ei nodi yn yr un dilyniant ag uchod.**



Mae'r ffurflen gais hon ar gael yn Saesneg / This application form is available in English

## Adran 2.2 - Gwybodaeth am yr eiddo

**Sylwch:** Rhaid i chi mewnbynnu'r eiddo yn yr un drefn ag y cawsant eu cofnodi yn adran 2.1, gan sicrhau bod rhif yr eiddo yn cyfateb.

| | Eiddo 1 | Eiddo 2 | Eiddo 3 |
|---|---|---|---|
| ***Math o eiddo** | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu |
| **Nifer y lloriau y gellir byw arnynt yn yr adeilad** (gan gynnwys pob llawr wedi'i feddiannu yn yr adeilad: defnydd masnachol, atigau, isloriau ac mesaninau os gellir byw yno) | | | |
| **Nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo** (gan gynnwys plant o enedigaeth) | | | |
| **Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo** | | | |
| **Pa fath o gyflenwad dŵr sydd yn yr eiddo hwn?** | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr |
| **A oes cyflenwad nwy gan yr eiddo?** | | | |
| **A oes gan yr eiddo gyfarpar tanwydd solet?**<br>**Os oes, a yw synhwyrydd carbon monocsid wedi'i osod?** | ☐ Oes ☐ Nac oes<br>☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes<br>☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes<br>☐ Oes ☐ Nac oes |
| **A oes gan yr eiddo system larwm tân?** | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes |
| **A oes gan yr eiddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY)?** | | | |
| **A yw'r eiddo'n cael ei osod ar denantiaethau sengl neu luosog?** | | | |
| **Os oes sawl tenantiaeth, faint sydd?** | | | |
| **A yw'r eiddo'n adeilad pwrpasol neu wedi'i addasu?** | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu |
| **Os wedi'i addasu, ym mha flwyddyn?** | | | |

## Adran 2.2 - Gwybodaeth am yr eiddo (yn parhau)

**Sylwch:** Rhaid i chi mewnbynnu'r eiddo yn yr un drefn ag y cawsant eu cofnodi yn adran 2.1, gan sicrhau bod rhif yr eiddo yn cyfateb.

| | Eiddo 4 | Eiddo 5 | Eiddo 6 |
|---|---|---|---|
| ***Math o eiddo** | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu |
| **Nifer y lloriau y gellir byw arnynt yn yr adeilad** (gan gynnwys pob llawr wedi'i feddiannu yn yr adeilad: defnydd masnachol, atigau, isloriau ac mesaninau os gellir byw yno) | | | |
| **Nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo** (gan gynnwys plant o enedigaeth) | | | |
| **Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo** | | | |
| **Pa fath o gyflenwad dŵr sydd yn yr eiddo hwn?** | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr |
| **A oes cyflenwad nwy gan yr eiddo?** | | | |
| **A oes gan yr eiddo gyfarpar tanwydd solet?** | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes |
| **Os oes, a yw synhwyrydd carbon monocsid wedi'i osod?** | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes |
| **A oes gan yr eiddo system larwm tân?** | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes |
| **A oes gan yr eiddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY)?** | | | |
| **A yw'r eiddo'n cael ei osod ar denantiaethau sengl neu luosog?** | | | |
| **Os oes sawl tenantiaeth, faint sydd?** | | | |
| **A yw'r eiddo'n adeilad pwrpasol neu wedi'i addasu?** | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu |
| **Os wedi'i addasu, ym mha flwyddyn?** | | | |

## Adran 3 – Gwybodaeth bellach

**Sut y clywsoch chi am y gofyniad i gofrestru?**

- [ ] Awdurdod lleol
- [ ] Chwilotwr
- [ ] Ffrind / cydweithiwr
- [ ] Cyswllt uniongyrchol gan Rhentu Doeth Cymru
- [ ] Cymdeithas landlordiaid
- [ ] Cyfryngau cymdeithasol
- [ ] Fforwm / digwyddiad landlordiaid
- [ ] Asiant gosod / rheoli
- [ ] Arall (rhowch fanylion)

**Gwybodaeth Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy**

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. I gael mwy o wybodaeth ewch i'n Polisi Preifatrwydd: **rhentudoeth.llyw.cymru/cym/privacypolicy**

Ticiwch y blwch isod i optio i mewn os ydych yn hapus i ni rannu eich manylion â'r cyflenwr dŵr perthnasol ar gyfer eich eiddo rhent. Bydd hyn yn lleihau eich risg o fod yn agored i daliadau dŵr, gan y bydd y cwmnïau dŵr perthnasol yn gallu cysylltu â chi am eich eiddo rhent.

**Nodwch: Nid yw optio i mewn yn cyflawni unrhyw un o'r cyfrifoldebau sydd gennych fel landlord i'ch cyflenwr dŵr.**

- [ ] Ticiwch os ydych chi'n rhoi caniatâd i'ch manylion gael eu rhannu â Dŵr Cymru Welsh Water neu Hafren Dyfrdwy

## Adran 4 - Talu

**Ffi sy'n daladwy***

Cyfeiriwch at yr adran ganllawiau am y ffi briodol ar gyfer eich cais.

£

Ffi sy'n daladwy

**Math y taliad**

- [ ] Siec amgaeedig wedi'i gwneud yn daladwy i Rhentu Doeth Cymru
- [ ] Cerdyn debyd/credyd (Visa, MasterCard neu Maestro)

Os dewiswch yr opsiwn hwn gallwch sganio ac anfon eich cais i rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk. Byddwn yn cysylltu â chi pan fyddwn yn prosesu'ch cais. Rhowch yr amser a'r rhif cyswllt gorau.

**Peidiwch â darparu manylion cerdyn yma.**

## Adran 5 - Datganiad

### 1. Datganiad o wirionedd

Rwyf i/Rydym ni yn datgan bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy/ein gwybodaeth. Rwyf/rydym yn deall fy mod/ein bod yn troseddu os ydw/ydym yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdod trwyddedu yn gysylltiedig ag unrhyw un o'i bwerau dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac yr ydw/ydym yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu os ydw/ydym yn ddiofal ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

### 2. Prosesu data

Drwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych yn derbyn yr Hysbysiad Prosesu Data y mae modd ei ddarllen yn yr adran canllawiau. Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn gan ei fod yn nodi pam yr ydym yn casglu eich data personol, sut y caiff ei ddefnyddio a phwy y gellid ei rannu ag ef.

### 3. Rhannu data

Mae Rhentu Doeth Cymru a'i Bartneriaid am gysylltu â landlordiaid ac asiantau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am wybodaeth berthnasol leol (digwyddiadau fforwm, darpar denantiaid (deiliaid-contract), cyfleoedd ariannu, ac ati)

☐ **Rhowch wybod i mi - gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Rhentu Doeth Cymru.**

**Byddwch yn ymwybodol:** Rhaid llenwi'r ffurflen yn gywir, ei llofnodi, ei dyddio a chynnwys y taliad am y ffioedd gyda'r ffurflen er mwyn i'r cofrestriad gael ei dderbyn yn un dilys. I gael cymorth, cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru ar 03000 133344.

**Bydd methu â gwneud yn achosi oedi wrth brosesu ac efallai eich bod yn gweithredu'n anghyfreithlon.**

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y landlord a enwir yn adran 1.1 neu gyflogai i'r cwmni/elusen, neu'r ymddiriedolwr arweiniol yn adran 1.3.

| Llofnod | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

Dychwelwch y ffurflen i:
**Rhentu Doeth Cymru, Blwch Post 1106, Caerdydd, CF11 1UA**

### Prosesu eich cais

Ar ôl ei dderbyn, gall gymryd hyd at 4 wythnos i brosesu cais wedi'i gwblhau. Byddwn yn cysylltu â chi os oes angen rhagor o wybodaeth. Sylwch: Yn ystod yr amser hwn byddwch yn parhau i dderbyn nodiadau atgoffa awtomataidd os oes disgwyl arnych adnewyddu eich cofrestriad landlord.

<table>
<tr><th colspan="2">Adran 6 – Nodiadau arweiniad</th></tr>
<tr><th colspan="2">I gefnogi tudalen 1</th></tr>
<tr><td>Mewn perthynas â deddfwriaeth, landlord yw’r person sydd â’r hawl dros berchnogaeth yr eiddo.<br><br>Yn y rhan fwyaf o achosion, y landlord yw perchennog yr eiddo.<br><br>Felly, gall landlord y mae’n rhaid iddo gofrestru fod un ai'n berson unigol, yn grŵp o bobl neu'n gwmni (gan ddibynnu ar ba fath o berchnogaeth sydd ar yr eiddo).</td><td>Landlord unigol: Chi yw unig berchennog yr eiddo (eich enw chi yn unig sydd ar y gweithredoedd). Rhaid nodi eich enw, eich dyddiad geni a’ch manylion cyswllt ynghyd â chyfeiriad llawn pob eiddo rhent yng Nghymru yr ydych chi'n landlord ar eu cyfer.<br><br>Cydlandlord: Mae’r eiddo rhent yn destun cydberchnogaeth (h.y. mae enw mwy nag un person ar y gweithredoedd). Rhaid penodi un o’r cydberchnogion yn berchennog arweiniol er mwyn cofrestru ar ran y cydberchennog arall. Rhaid i’r perchennog arweiniol nodi ei fanylion ei hun a manylion pob cydlandlord.<br><br>Corff corfforaethol: Os yw’r eiddo ym mherchnogaeth cwmni, yna y cwmni sy’n cofrestru fel landlord. Rhaid i chi gwblhau'r broses gofrestru drwy nodi manylion y cwmni gan gynnwys y rhif cofrestru gan Dŷ’r Cwmnïau, cyfeiriad y swyddfa gofrestredig a'r cyfeiriad cyswllt.<br><br>Elusen: Os yw’r eiddo ym mherchnogaeth elusen, yna’r cwmni sy’n cofrestru fel landlord. Rhaid i chi gwblhau'r broses gofrestru drwy nodi manylion yr elusen gan gynnwys y rhif cofrestru dan y Comisiwn Elusennau cyfeiriad, y swyddfa gofrestredig a'r cyfeiriad cyswllt.<br><br>Ymddiriedolaeth: Os yw’r eiddo ym mherchnogaeth ymddiriedolaeth, gall un ymddiriedolwr penodol gofrestru’r eiddo dan enw'r ymddiriedolaeth. Dylid nodi manylion yr ymddiriedolaeth, nid manylion yr ymddiriedolwr/ymddiriedolwyr unigol sy'n cyflawni'r broses gofrestru.</td></tr>
<tr><td>Landlord nad yw’n byw yn y DU</td><td>Os ydych yn byw dramor am 6 mis neu fwy y flwyddyn, cewch eich ystyried yn 'landlord dibreswyl' gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Dylid nodi ar y ffurflen gofrestru.</td></tr>
<tr><th colspan="2">I gefnogi tudalen 3</th></tr>
<tr><td>Rhif cofrestru’r cwmni elusen berthnasol</td><td>Yn achos Corff Corfforaethol, dyma'r rhif cofrestru a roddir gan Dŷ'r Cwmnïau ar gyfer y Cwmni. Ar gyfer elusen, dyma’r rhif cofrestru a roddir gan y Comisiwn Elusennau.</td></tr>
<tr><th colspan="2">I gefnogi tudalennau 4,5 + 6</th></tr>
<tr><td>Gweithgareddau gosod a rheoli gan landlord y mae angen trwydded landlord ar eu cyfer</td><td>Mae’r rhain wedi’u ddiffinio yn adran 6 a 7 Deddf Tai (Cymru) 2014. Fel landlord, bydd angen trwydded arnoch os ydych yn gwneud neu'n bwriadu gwneud unrhyw un o'r pethau canlynol mewn eiddo yr ydych yn landlord ar ei gyfer:<br><br>Y pethau yw:<br>a) trefnu neu gynnal ymweliadau eiddo gyda darpar denantiaid;<br>b) casglu tystiolaeth at ddibenion pennu addasrwydd darpar denantiaid (er enghraifft, drwy gadarnhau geirdaon, cynnal gwiriadau credyd neu gyfweld â darpar denant);<br>c) paratoi, neu drefnu i baratoi, cytundeb tenantiaeth;<br>ch) paratoi, neu drefnu i baratoi, unrhyw stocrestr neu restr o gyflwr yr eiddo.<br>d) casglu rhent;<br>dd) bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer y tenant mewn perthynas â materion sy’n codi dan y denantiaeth;<br>e) gwneud trefniadau gyda pherson i gyflawni gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw;<br>f) gwneud trefniadau gyda thenant neu feddiannwr yr eiddo i gael mynediad i’r annedd at unrhyw ddiben;<br>ff) gwirio cynnwys neu gyflwr yr annedd, neu drefnu iddynt gael eu gwirio (hyd yn oed os yw'r denantiaeth wedi dod i ben ond eich bod yn gwirio’r cyflwr i bennu'r cyflwr wedi i’r tenantiaid adael);<br>g) cyflwyno hysbysiad o derfynu tenantiaeth.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau gosod a rheoli gan asiant nad oes angen trwydded ar eu gyfer** | Mae’r canlynol yn nodi gwaith gosod a rheoli lle bydd angen trwydded ar berson sy’n gweithredu ar ran landlord mewn eiddo rhent yng Nghymru. Mae hwn wedi’i ddiffinio yn adran 10 a 12 Deddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Os yw unigolyn neu gwmni yn gweithredu ar eich rhan ac yn bodloni'r meini prawf canlynol ar gyfer trwydded asiant, rhaid i chi ei nodi yn y cofrestriad hwn yn erbyn yr eiddo rhent y mae'n gweithio ynddo.<br><br>**Gwaith gosod gan asiant:** Gall unigolyn nad yw’n landlord wneud y gwaith hwn heb drwydded asiant, ar yr amod nad yw’n gwneud unrhyw beth yn yr adran ‘gwaith rheoli eiddo gan asiant’:<br><br>**a)** cyhoeddi hysbysebion neu rannu gwybodaeth;<br>**b)** trefnu neu gynnal ymweliadau gyda darpar denantiaid;<br>**c)** paratoi, neu drefnu i baratoi, cytundeb tenantiaeth;<br>**ch)** paratoi, neu drefnu i baratoi, stocrestau neu atodlenni amodau.<br><br>**Gwaith rheoli eiddo gan asiant:** Mae angen trwydded i wneud y canlynol yn unig<br>**a)** casglu rhent;<br><br>Mae’n dderbyniol gwneud y canlynol heb drwydded, ar yr amod nad ydych yn casglu rhent, nac yn gwneud unrhyw beth yn yr adran ‘Gwaith Gosod gan Asiant’<br>**b)** bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer y tenant mewn perthynas â materion sy’n codi dan y denantiaeth;<br>**c)** gwneud trefniadau gyda pherson i gyflawni gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw;<br>**ch)** gwneud trefniadau gyda thenant neu feddiannwr yr annedd i fynd i mewn i’r annedd at unrhyw ddiben;<br>**d)** gwirio cynnwys neu gyflwr yr annedd, neu wneud trefniadau iddynt gael eu gwirio fel rhan o denantiaeth bresennol neu un sydd wedi dod i ben;<br>**dd)** cyflwyno hysbysiad o derfynu tenantiaeth. |
| **I gefnogi tudalennau 7 + 8** | |
| **Diffiniadau o fathau o eiddo** | Mae 3 'Math o Eiddo' y gallwch eu dewis. Mae angen dewis math o eiddo ar gyfer pob eiddo rhent rydych yn ei ychwanegu at eich cofrestriad. Bydd angen diweddaru hyn hefyd wrth adnewyddu cofrestriad.<br><br>**1) Aelwyd annedd sengl:** Mae Deddf Tai 2004 (A.254) yn diffinio un aelwyd fel teulu, e.e. cwpl (boed yn briod ai peidio, gan gynnwys cyplau o'r un rhyw) neu bobl sy'n perthyn i’w gilydd. At y dibenion hyn, mae person yn aelod o'r un teulu ag un arall:<br><br>**a)** os yw’r bobl hynny'n briod (neu’n bartneriaid sifil neu'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn gwpl priod neu'n bartneriaid sifil)<br>**b)** os yw’r naill yn perthyn i’r llall<br>**c)** os yw un ohonynt yn, neu’n perthyn i, un aelod o gwpl ac mae'r llall yn perthyn i'r aelod arall o'r cwpl.<br><br>**2) Tŷ a rennir:** Diffinnir tŷ a rennir yn gyffredin fel dau neu fwy o bobl sy'n byw mewn llety gyda'i gilydd. Fel arfer bydd gan bob unigolyn ei ystafell wely ei hun ac fel arfer bydd yn rhannu rhai mannau cymunedol fel ceginau, ystafelloedd ymolchi neu ystafelloedd byw. |

| | |
|---|---|
| | **3) Fflat neu fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu:** Fflatiau/fflatiau un ystafell pwrpasol yw'r rhai sydd wedi'u hadeiladu o'r dechrau fel fflatiau/fflatiau un ystafell yn hytrach na'r rhai sydd wedi'u haddasu o'u hadeilad gwreiddiol; er enghraifft, tŷ neu fath arall o adeilad.<br><br>Os oes sawl tenantiaeth mewn eiddo, fel tŷ/fflat a rennir, rhaid i chi sicrhau eich bod yn rhoi cyfeiriad a chod post pob contract meddianaeth ar wahân ar y cofrestriad. Er enghraifft, dylid ychwanegu Fflatiau A, B ac C sydd i gyd o fewn 1 Stryd Fawr, Caerdydd CF12 3AB fel tri fflat/fflat un ystafell ar wahân, ac nid fel un eiddo yn unig wedi'i restru'n 1 Stryd Fawr, Caerdydd CF12 3AB. |
| **I gefnogi tudalen 9** | |
| **Ffi sy'n daladwy*** | Rhennir cofrestriadau yn ddau fath o gais – cofrestriad newydd ac adnewyddu. Y ffi ar gyfer cofrestriad newydd yw £102.00. I adnewyddu cofrestriad, y ffi yw £87.00. Er mwyn manteisio ar y ffi adnewyddu, rhaid i'r landlord wneud cais i adnewyddu cofrestriad cyn i'r cofrestriad ddod i ben. Os oes gan landlord gofrestriad a'i fod yn gadael iddo ddod i ben, bydd yn rhaid talu ffi gofrestru newydd ac nid y ffi adnewyddu. |
| **I gefnogi tudalen 10** | |
| **Hysbysiad prosesu data** | Mae copi llawn o Hysbysiad Prosesu Data Rhentu Doeth Cymru ar gael yn rhentudoeth.llyw.cymru/cym/privacy-policy/ neu gellir ei roi ar gais.<br><br>**Pam caiff data personol ei gasglu a'i storio fel rhan o Rhentu Doeth Cymru:** Er mwyn bodloni gofynion y System Cofrestru Landlordiaid a'r Cynllun Trwyddedu fel y nodir yn Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu lunio a chynnal system sy'n ei alluogi i gasglu data.<br><br>**Pa ddata personol sydd gennym a sut rydym yn ei dderbyn:** Gall y mathau o ddata personol a gedwir ac a brosesir gan Rentu Doeth Cymru gynnwys:<br><br>• Manylion cyswllt gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost<br>• Manylion adnabod, gan gynnwys dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, rhif pasbort, rhif trwydded yrru<br>• Gwybodaeth am gollfarnau<br><br>Mae yna hefyd ffurflen fonitro wirfoddol i sicrhau bod Rhentu Doeth Cymru yn sicrhau bod ei wasanaeth yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau ychwanegol sy'n darparu data personol pellach, ond dim ond at ddibenion ystadegol a chyfeirio y caiff y wybodaeth hon ei phrosesu, ac yn ddienw.<br><br>**Sut y byddwn yn defnyddio eich data personol:** Mae'n bosibl y bydd Rhentu Doeth Cymru yn prosesu data personol er mwyn bodloni ei rwymedigaethau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a gall hyn gynnwys prosesu data personol at nifer o ddibenion gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Er mwyn cysylltu â chi<br>• Er mwyn rhoi cofrestriad i landlord; er mwyn rhoi trwydded i landlord neu drwydded i asiant |

- I wneud asesiad o addasrwydd a phriodoldeb ymgeisydd yn unol â'r gofynion trwydded a nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014
- At ddibenion gorfodi diffyg cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014
- At ddibenion sicrhau a monitro cydymffurfiad parhaus â Deddf Tai (Cymru) 2014 gan gynnwys amodau trwydded
- At ddibenion sicrhau a monitro cydymffurfiad parhaus â'r Cod Ymarfer
- Er mwyn arddangos (i aelodau'r cyhoedd sy'n chwilio'r Gofrestr) a yw landlord wedi'i gofrestru; ac os yw'r landlord neu'r asiant (neu'r ddau), y nodwyd eu bod yn ymgymryd â thasgau gosod neu reoli yn yr eiddo, wedi'i drwyddedu
- Hwyluso cyflwyno cyrsiau hyfforddi
- Prosesu trafodion ariannol ar gyfer taliadau a wneir ar gyfer cyrsiau cost
- Cynorthwyo Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Trwyddedu i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- At ddibenion ystadegol a chyfeirio
- Mynd i'r afael ag ymholiadau ac ymateb i unrhyw anghydfodau gwirioneddol neu bosibl.
- Mewn achosion prin neu eithriadol bydd Rhentu Doeth Cymru yn defnyddio’r cyfeiriadau Eiddo Rhentu i gyfathrebu’n uniongyrchol â thenantiaid at ddibenion y tu allan i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 pan fo angen

Nodwch fod Rhentu Doeth Cymru yn gweithio mewn Partneriaeth gyda'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, ac felly bydd yr Awdurdodau Lleol yn hygyrch i wybodaeth a gedwir gan Rentu Doeth Cymru. Yn ogystal, gall Awdurdodau Lleol rannu gwybodaeth berthnasol sydd ganddynt â Rhentu Doeth Cymru er mwyn helpu i benderfynu a yw ymgeisydd yn addas ac yn briodol i weithredu fel landlord trwyddedig neu asiant trwyddedig.

**Sefydliadau y gallwn rannu eich data personol â nhw:** Dim ond at ddibenion Cynllun Rhentu Doeth Cymru y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, ond ar brydiau gall Rhentu Doeth Cymru hefyd rannu data personol â sefydliadau eraill. Gellir cael rhestr lawn ar ein gwefan.

**Am ba mor hir ydyn ni'n cadw'ch data personol:** Ni fydd gwybodaeth a gesglir gan Rentu Doeth Cymru yn cael ei chadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol. Cyfnod cadw Rhentu Doeth Cymru yw 6 + 1 flynedd ar ôl i'r drwydded a / neu'r cofrestriad ddod i ben. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwn, bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei dinistrio'n ddiogel.

**Pwy yw'r Rheolwr Data ar gyfer Rhentu Doeth Cymru:** Gweithredir Rhentu Doeth Cymru gan Gyngor Caerdydd. Felly Cyngor Caerdydd yw'r Rheolwr Data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a ddarperir at y dibenion hyn. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn gyfrinachol a'i phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 bob amser. I gael mwy o wybodaeth am ofynion diogelu data’r Cyngor, cysylltwch â’r Swyddog Diogelu Data dros ebost at: diogeludata@caerdydd.gov.uk.

**Eich hawliau:** Gallwch arfer eich hawliau unigol, gan gynnwys mynediad at wybodaeth, cywiro gwybodaeth anghywir neu wrthwynebu prosesu eich data personol.I gael mwy o wybodaeth am eich hawliau, gallwch ymweld â cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Diogelwch-data-a-Rhyddid-Gwybodaeth

## Adran 7 – Cyfle Cyfartal

Mae Rhentu Doeth Cymru am sicrhau bod ei wasanaethau ar agor i bawb. Felly, gofynnwn i chi ateb y cwestiynau canlynol i'n helpu i sicrhau bod ein gwasanaeth yn deg.

Mae'r holl gwestiynau'n wirfoddol ac ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r gwasanaeth a gewch os na fyddwch yn eu hateb. Drwy ddewis eu hateb, byddwch yn ein helpu i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ei thrin yn gyfrinachol.

Gwryw ☐ Benyw ☐ Gwryw i Fenyw ☐ Benyw i Wryw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

### Beth yw eich oedran?

Dan 16 ☐ 16-24 ☐ 25-34 ☐ 35-44 ☐
45-54 ☐ 55-64 ☐ 65+ ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

### Anabledd

Gall pobl anabl gynnwys pobl â nam ar y clyw neu'r golwg, pobl ag anawsterau iechyd meddwl neu anableddau dysgu, pobl â nam symudedd neu'r rheini sydd â chyflwr iechyd hirdymor, er enghraifft: iselder, diabetes, asthma, sglerosis ymledol, HIV neu ganser.

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? Ydw (nodwch): Ydw (nodwch) ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Byddar / trwm eich clyw ☐ Nam symudedd ☐ Salwch hirdymor neu gyflwr iechyd ☐
Defnyddiwr cadair olwyn ☐ Nam / anawsterau dysgu ☐ Nam ar y golwg ☐
Anawsterau Iechyd Meddwl ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

### Cyfeiriadedd Rhywiol (Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi'n 16 oed neu hŷn)

Dyn Hoyw ☐ Menyw Hoyw / Lesbiad ☐ Heterorywiol ☐
Deurywiol ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

### Crefydd / Diffyg cred

Ydych chi'n ystyried eich hun i berthyn i grefydd benodol?

Ydw (nodwch) ☐ Nac ydw, dim crefydd ☐
Cristion ☐ Bwdhydd ☐ Hindŵ ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐
Mwslim ☐ Sikh ☐ Iddew ☐ Arall (nodwch isod) ☐

## Sgiliau Iaith

Cymraeg ☐ Saesneg ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

## Beth yw eich Statws Priodasol neu Bartneriaeth Sifil ? (Atebwch os ydych chi'n 16 oed neu hŷn)

Sengl ☐ Priod ☐ Partneriaeth Sifil Gofrestredig ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐ Arall (nodwch isod) ☐

## Monitro Ethnig

Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes? Ydw ☐ Nac ydw ☐

| | |
|---|---|
| Gwyn | Cymreig / Seisnig / Albanaidd Gogledd Iwerddon / Prydeinig ☐ Gwyddedig ☐ Cefndir Gwyn Arall (nodwch): ☐ |
| Cefndir Cymysg / Aml-ethnig | Gwyn a Du Caribïaidd ☐ Gwyn a Du Africannaidd ☐ Gwyn a Asiaidd ☐ Cefndircymysg / aml-ethnig arall (nodwch) ☐ |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | Indiaidd ☐ Pacistanaidd ☐ Tseineaidd ☐ Cefndir Asiaidd arall (nodwch) ☐ Bangladeshaidd ☐ |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | Affricanaidd ☐ Caribïaidd ☐ Cefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd Arall (nodwch) ☐ |
| Cefndir Arall | Arabaidd ☐ Tsiecaidd ☐ Sipsi/Teithiwr Gwyddelig ☐ Siapaneaidd ☐ Pwylaidd ☐ Yemenïaidd ☐ Cefndir Arall (nodwch isod) ☐ |

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ydych chi'n feichiog neu wedi rhoi genedigaeth o fewn y 26 wythnos diwethaf?

Beichiog ☐ Wedi rhoi genedigaeth ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud ☐

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau Ffurflen Fonitro Rhentu Doeth Cymru.

**DIWEDD Y FFURFLEN**

## Taflenni ychwanegol - Manylion eiddo rhent

Rhaid i chi ddatgan pob adeilad neu ran o adeilad a ddefnyddir fel annedd ar wahân. Os rhennir eiddo yn fflatiau neu'n fflatiau un ystafell, byddai pob fflat yn cael ei datgan a'i chofrestru'n unigol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif** ☐<br>Mewnbynnwch rhif yma | | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord | ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli | ☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif** ☐ | | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord | ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli | ☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad llawn eiddo rhent rhif** ☐ | | Cod post ☐☐☐☐☐☐☐ |
| **A yw'r landlord yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord | ☐ Nac ydy - rhaid i chi benodi asiant trwyddedig |
| **A yw asiant yn cynnal gweithgareddau gosod a rheoli yn yr eiddo rhent?** | ☐ Ydy - Gosod yn unig<br>☐ Ydy - Rheoli yn unig<br>☐ Ydy - Gosod a rheoli | ☐ Nac ydy – rhaid i chi wneud cais am drwydded landlord |
| **Enw'r asiant** | | |

**Taflenni ychwanegol - Gwybodaeth am yr eiddo**

Sicrhewch fod y rhif rydych chi'n ei fewnbynnu yma yn cyfateb i'r manylion eiddo rydych chi wedi'u darparu ar y dudalen flaenorol

| | Eiddo rhif ☐ | Eiddo rhif ☐ | Eiddo rhif ☐ |
|---|---|---|---|
| ***Math o eiddo** | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu | ☐ Aelwyd annedd sengl<br>☐ Tŷ a rennir<br>☐ Fflat bwrpasol/wedi'i haddasu<br>☐ Fflat un ystafell bwrpasol/wedi'i haddasu |
| **Nifer y lloriau y gellir byw arnynt yn yr adeilad** (gan gynnwys pob llawr wedi'i feddiannu yn yr adeilad: defnydd masnachol, atigau, isloriau ac mesaninau os gellir byw yno) | | | |
| **Nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo** (gan gynnwys plant o enedigaeth) | | | |
| **Nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo** | | | |
| **Pa fath o gyflenwad dŵr sydd yn yr eiddo hwn?** | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr | ☐ Cyflenwad dŵr preifat<br>☐ Prif gyflenwad dŵr |
| **A oes cyflenwad nwy gan yr eiddo?** | | | |
| **A oes gan yr eiddo gyfarpar tanwydd solet?** | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes |
| **Os oes, a yw synhwyrydd carbon monocsid wedi'i osod?** | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes | ☐ Oes ☐ Nac oes |
| **A oes gan yr eiddo system larwm tân?** | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes | ☐ Oes - batri<br>☐ Oes - wedi'i gwifro<br>☐ Nac oes |
| **A oes gan yr eiddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY)?** | | | |
| **A yw'r eiddo'n cael ei osod ar denantiaethau sengl neu luosog?** | | | |
| **Os oes sawl tenantiaeth, faint sydd?** | | | |
| **A yw'r eiddo'n adeilad pwrpasol neu wedi'i addasu?** | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu | ☐ Pwrpasol<br>☐ Wedi'i addasu |
| **Os wedi'i addasu, ym mha flwyddyn?** | | | |